*This document is available in English* **Eitem ar yr Agenda 7**

| | |
|---|---|
| Adroddiad ar gyfer | **Yr Awdurdod Tân ac Achub** |
| Dyddiad | **17 Medi 2018** |
| Swyddog Arweiniol | **Shân Morris, Prif Swyddog Cynorthwyol (Polisi a Chynllunio Corfforaethol)** |
| Swyddog Cyswllt | **Pippa Hardwick, Rheolwr Cynllunio Corfforaethol (03303 132 683)** |
| Pwnc | **Asesiad Drafft o Berfformiad yr Awdurdod 2017-18** |

**PWRPAS YR ADRODDIAD**

1 Cyflwyno, er mwyn cael yr aelodau i'w gymeradwyo, asesiad drafft o berfformiad Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru yn ystod 2017-18 mewn perthynas â'r canlynol:
(i) ei amcanion gwella a llesiant a'i amcanion cydraddoldeb; a'i
(ii) gydymffurfiaeth â safonau perthnasol y Gymraeg.

**CRYNODEB GWEITHREDOL**

2 Rhaid i Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod), dan wahanol ddarnau o ddeddfwriaeth, roi cyfrif cyhoeddus o'i berfformiad, ei gynnydd a'i gydymffurfiaeth â'r ddeddfwriaeth honno yn y flwyddyn ariannol flaenorol. Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno, i'w gymeradwyo, un ddogfen i'w chyhoeddi cyn diwedd Medi 2018 sy'n cwrdd â gofynion adrodd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015, Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009, Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb Cymru 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011 a Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

**ARGYMHELLIAD**

3 Bod yr Aelodau'n:

(i) cymeradwyo'r asesiad drafft o berfformiad yr Awdurdod yn ystod 2017-18 (yn ddibynnol ar fân ychwanegiadau a chywiriadau os oes angen) i'w gyhoeddi ar wefan yr Awdurdod erbyn 30 Medi 2018; a

(ii) nodi bwriad y Gwasanaeth i gyhoeddi taflen i'w dosbarthu'n gyffredinol i roi crynodeb o elfennau allweddol o'r asesiad cyn diwedd Rhagfyr 2018.

## GWYBODAETH

4 Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod osod a chyhoeddi amcanion a fydd yn cyfrannu at wella llesiant lleol ac yn symud Cymru yn nes at gyflawni ei nodau llesiant. Ar ôl gosod yr amcanion tymor hir yma, rhaid i'r Awdurdod gymryd pob cam rhesymol i fynd ynglŷn â nhw ac adrodd yn gyhoeddus ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol ynghylch y cynnydd y mae wedi'i wneud.

5 Mae Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod osod a chyhoeddi amcanion llesiant ac i gyhoeddi, bob blwyddyn erbyn 31 Hydref, wybodaeth am berfformiad yn y flwyddyn ariannol flaenorol.

6 Mae Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb Cymru 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011 yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Tân ac Achub yng Nghymru greu cynllun cydraddoldeb strategol ac i adrodd bob blwyddyn erbyn 31 Mawrth ynghylch y cynnydd y mae wedi'i wneud wrth gyflawni'r cynllun hwnnw yn y flwyddyn ariannol flaenorol.

7 Erbyn hyn, nid oes raid i'r Awdurdod ddatblygu Cynllun Iaith Gymraeg, ond drwy Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011 rhaid iddo gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg a chyhoeddi adroddiad bob blwyddyn erbyn 30 Medi ynghylch ei gydymffurfiaeth â'r Safonau hynny.

8 Er hwylustod felly, mae'r cynnydd mewn perthynas â'r pedair ddeddfwriaeth uchod wedi cael eu cyfuno o fewn un ddogfen adrodd i'w chyhoeddi cyn y dyddiad statudol cynharaf, sef 30 Medi 2018.

## GOBLYGIADAU

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Mae amcanion cyntaf yr Awdurdod a osodwyd dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 yn ymwneud â 2017-18. |
| Cyllideb | Mae modd cadw'r costau'n is drwy gyhoeddi'r ddogfen lawn ar wefan yr Awdurdod a darparu gwybodaeth gryno yn unig mewn taflenni papur, |
| Cyfreithiol | Mae'r ddogfen gyfunol yn cyflawni dyletswyddau'r Awdurdod dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015, Deddf Cydraddoldeb 2010 a Rheoliadau (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011 a Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 |
| Staffio | Nid oes dim goblygiadau staffio yn gysylltiedig â chynhyrchu'r ddogfen gyfunol na'r taflenni cryno. |
| Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/Y Gymraeg | Ymdrinnir â'r holl nodweddion gwarchodedig yn yr adroddiad. |
| Risgiau | Ystyrir nad yw hyn yn berthnasol. |